



Rhif: WG43637

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ynghylch newidiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr
tân yng Nghymru 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Hydref 2021

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Rhagfyr 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ynghylch newidiadau i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i holl aelodau presennol cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân sy'n dyddio o 1992 i 2007, ymuno â Chynllun 2015 ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf.

Bydd y newidiadau hyn yn ofynnol o dan Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, sydd gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd. Maent yn rhan o becyn o fesurau a gaiff ei oruchwylio gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus y mae'r Llysoedd wedi dyfarnu eu bod yn bodoli.

Er bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân, mae pensiynau galwedigaethol yn gyffredinol yn fater a gedwir yn ôl sydd y tu hwnt i bwerau Senedd Cymru. Felly, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'r polisi a amlinellir yn y Bil.

Sut i ymateb

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yma:

[Newidiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru 2021 | LLYW.CYMRU](#)

Fel arall, gall ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân a ddarperir, a'i hanfon drwy e-bost i fire@gov.wales neu ei hanfon i'r cyfeiriad isod.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 20 Rhagfyr 2021.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

Ffôn: 0300 025 8869

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cefndir

1. Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013") ddiwygiadau cynhwysfawr i holl bensiynau'r sector cyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Y nod cyffredinol oedd lleihau cost y pensiynau hyn i'r pwrs cyhoeddus, drwy gyflwyno cynlluniau newydd ag oedran pensiwn arferol uwch i bob gwas cyhoeddus, a darparu y câi buddion yn y cynlluniau hynny eu cyfrifo ar sail enillion ailbrisedig cyfartaledd gyrfa (CARE) yn hytrach na chyflog terfynol. Roedd Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU neu (fel y bo'n briodol) y llywodraethau datganoledig lunio rheoliadau yn sefydlu cynlluniau newydd o'r fath a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2015, pan fyddai'r cynlluniau presennol yn cau, fel na allai aelodau Gronni unrhyw bensiwn ynddynt bellach (gyda rhai eithriadau a ddisgrifir isod).
2. Mae pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru yn unigryw am eu bod wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Felly, Gweinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am lunio rheoliadau i sefydlu cynllun newydd ar gyfer diffoddwyr tân a gyflogir yng Nghymru. Caiff Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun 2015") ei lywodraethu gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015¹ ("Rheoliadau 2015"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill y flwyddyn honno, yn unol â gofynion Deddf 2013.
3. Cyn 2015 roedd dau gynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân yng Nghymru ac roedd y ddau ohonynt yn cyfrifo buddion ar sail cyflog terfynol:
 - a. Y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992² ("Cynllun 1992"), a oedd ar agor i unrhyw un a ddechreuodd weithio fel diffoddwr tân cyn 1 Ionawr 2006. Oedran pensiwn arferol y cynllun hwn yw 55 oed a gellir cronni hyd at 30 o flynyddoedd o wasanaeth, ond gall llawer o ddiffoddwyr tân ymddeol o 50 oed ymlaen gan fod y cynllun yn caniatáu *croniad dwbl* o wasanaeth ar ôl 20 mlynedd.
 - b. Y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007³ ("Cynllun 2007"), a oedd ar agor i unrhyw un a oedd wedi ymuno ar neu ar ôl 1 Ionawr 2006. Oedran pensiwn arferol y cynllun hwn yw 60 oed ac mae ganddo gyfradd Gronni is na Chynllun 1992. Mae hefyd yn cynnwys cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn (sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw) sydd, i bob pwrpas, yn efelychu telerau Cynllun 1992 ar gyfer staff o'r fath.

Diogelwch trosiannol

4. Roedd Adran 18 o Ddeddf 2013 hefyd yn caniatáu i reoliadau eithrio categorïau penodol o weithwyr o'r gofyniad i ymuno â'r cynllun newydd a gadael iddynt aros yn eu cynllun presennol – neu, i ddefnyddio'r jargon, eu bod yn cael "diogelwch trosiannol". Cynigiodd cytundeb rhwng y Trysorlys a'r TUC y dylai'r diogelwch hwn fod ar gael i'r rhai a oedd agosaf at oedran ymddeol yn eu cynlluniau presennol, am ei bod yn bosibl eu bod eisoes wedi gwneud cynlluniau ar gyfer

¹ OS 2015 rhif 622 / Cy.50

² OS 1992 rhif 129

³ OS 2007 rhif 1072 / Cy.110

ymddeol ac y byddai ganddynt lai o amser i addasu i delerau'r cynlluniau newydd a oedd yn llai manteisiol yn gyffredinol.

5. Yn unol â hynny, darparodd Rheoliadau 2015 y byddai unrhyw un a oedd yn aelod actif o gynllun ar 1 Ebrill 2012 ac yn 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad hwnnw yn aros yn ei gynllun blaenorol yn barhaol ("diogelwch llawn"); ac y byddai unrhyw aelod actif o gynllun a oedd rhwng 41 a 44 oed ar y dyddiad hwnnw'n trosglwyddo'n raddol i mewn i'r cynllun newydd dros gyfnod o bum mlynedd o 2015 ("diogelwch taprog"). Cafwyd darpariaethau tebyg ym mhob un o gynlluniau newydd eraill y sector cyhoeddus ond roedd y meini prawf oedran yn amrywio yn ôl oedrannau pensiwn arferol y cynlluniau presennol.
6. Fodd bynnag, bu'r polisi hwn o ddiogelwch trosiannol yn seiliedig ar oedran yn destun her gyfreithiol bron yn syth. Yn achosion McCloud ac eraill v Yr Arglwydd Ganghellor ac un arall (a gafodd ei ddwyn gan grŵp o farnwyr) a Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill (a gafodd ei ddwyn gan grŵp o ddiffoddwyr tân), dadleuodd yr hawlwr fod y polisi yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail oedran (ac yn achos Sargeant, gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail rhyw a hil). Gwrandawodd y Tribiwnlys Cyflogaeth ar yr achosion ar wahân ar ddechrau 2017 ond gwnaethant ymuno â'i gilydd yn ystod camau cyfreithiol dilynol. Er i'r Tribiwnlys Cyflogaeth ddyfarnu o blaid y diffynyddion yn achos Sargeant, cafodd y dyfarniad hwnnw ei wrthdroi'n rhannol gan y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth a'i wrthdroi'n gyfan gwbl gan y Llys Apêl⁴, a ddyfarnodd fod diogelwch trosiannol seiliedig ar oedran, fel y'i rhoddwyd ar waith, yn anghyfreithlon.

Y rhwymedi

7. Cafodd y cwestiwn ynghylch y rhwymedi yr oedd gan yr hawlwr hawl iddo ei ailgyfeirio at y Tribiwnlys Cyflogaeth gan y Llys Apêl. Nid yw'r camau cyfreithiol hyn wedi'u cwblhau eto. Fodd bynnag, mae nifer o bwyntiau cyffredinol wedi dod i'r amlwg yn barod:
 - a. Mae hawl gan y rhai a brofodd wahaniaethu ddychwelyd i'w cynllun blaenorol, a chael eu trin fel pe na baent wedi'i adael ym mis Ebrill 2015. Yn wir, dyma yw effaith gorchymyn interim a gyflwynwyd gan y Tribiwnlys Cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2019.
 - b. Bydd y rhwymedi hwnnw ar gael i'r hawlwr yn yr achos a holl aelodau eraill y cynllun sydd mewn sefyllfa debyg (h.y. y rhai a oedd mewn gwasanaeth ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015, ond a oedd yn rhy ifanc ar y dyddiad cyntaf i fod yn gymwys i gael diogelwch llawn). Cyfeiriwn at y rhain fel yr "aelodau yr effeithir arnynt" yng ngweddill y ddogfen hon.
 - c. Fodd bynnag, gall Cynllun 2015 fod yn well i rai unigolion, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u dewisiadau personol⁵. Felly, rhaid i'r holl aelodau yr effeithir arnynt gael dewis rhwng Cynllun 2015 a'r cynllun yr oeddent yn

⁴ [2018] EWCA Civ 2844

⁵ Er enghraifft, mae gan Gynllun 2015 gyfradd is o gyfraniadau cyflogaeth na Chynllun 1992 ac nid oes cap ar bensiwn cronedig. Mae hefyd yn talu buddion i ystod ehangach o oroeswyr aelodau o'r cynllun a fu farw, ond mae ganddo oedran pensiwn arferol uwch a chaiff ei gyfrifo ar sail CARE, nid cyflog terfynol. O gymharu â Chynllun 2007, mae ganddo gyfradd uwch o gyfraniadau ond mae ganddo hefyd gyfradd gronni uwch, a chyfraddau is o ostyngiadau actiwaraid ar gyfer pensiynau a gymerwyd cyn oedran pensiwn arferol.

aelodau ohono cyn 1 Ebrill 2015 (y cyfeiriwn ato isod fel y “cynllun etifeddol”).

- d. Ni fydd rhwymedi ar gael i unrhyw un a ddechreuodd weithio ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012 gan y byddent neu y dylent fod wedi bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r cynllun pan wnaethant ymuno. Nid ydynt, felly, wedi profi unrhyw wahaniaethu.
8. Gan fod y broblem yn effeithio ar bob un o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, caiff materion sy'n ymwneud â dylunio a gweithredu'r rhwymedi eu cydlynu gan y Trysorlys. Mae eisoes wedi cyhoeddi ffurf fras y rhwymedi fel uchod. Mae hefyd wedi penderfynu bod y nod gwreiddiol o leihau cost pensiynau'r sector cyhoeddus yn ddilys o hyd; a bod yn rhaid i holl aelodau cynlluniau (gan gynnwys y rhai a gafodd ddiogelwch honedig yn 2015) drosglwyddo i Gynlluniau 2015 o 1 Ebrill 2022. Yn amlwg, ni fydd unrhyw ddiogelwch trosiannol ar yr achlysur hwn.
9. Mae safbwynt y Trysorlys, felly, yn creu “cyfnod rhwymedi” rhwng 1 Ebrill 2015 a 1 Ebrill 2022. Bydd yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn dychwelyd yn awtomatig i'w cynlluniau etifeddol am y cyfnod hwnnw, a chaiff eu hawliadau a'u cyfraniadau pensiwn eu cyfrifo'n unol â hynny. Fodd bynnag, wrth ystyried y pensiwn a gânt yn y pen draw, bydd hawl ganddynt hefyd i benderfynu a ddylai eu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi gael ei drin fel gwasanaeth yng Nghynllun 2015 neu eu cynllun etifeddol.
10. Yn ogystal, ymgynghorodd y Trysorlys yn helaeth yn ystod hydref 2020⁶ ar y ffordd y gallai aelodau wneud y penderfyniad hwn. Yr opsiynau oedd “dewis uniongyrchol”, h.y. penderfyniad a wneir ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol ddod i rym, a “dewis gohiriedig”, h.y. dewis a wneir wrth ymddeol. Roedd hi'n amlwg bod yr ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn dewis gohiriedig, am ei fod yn galluogi aelodau cynlluniau i wneud penderfyniadau ar sail sicrwydd am y buddion yr oedd ganddynt hawl iddynt o dan eu cynllun etifeddol a Chynllun 2015. Byddai dewis uniongyrchol, ar y llaw arall, yn ei gwneud yn ofynnol i ddiffoddwyr tân wneud tybiaethau am eu gyrfaedd yn y dyfodol a digwyddiadau eraill yn ystod eu bywyd, ac roedd risg y gallai'r opsiwn hwn wahaniaethu yn erbyn diffoddwyr tân ifanc a fyddai'n gorfod gwneud mwy o dybiaethau o'r fath ac a fyddai, felly, yn fwy tebygol o beidio â gwneud y dewis gorau. Dyma hefyd oedd ffafriaeth glir holl aelodau Bwrdd Cynghori ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru⁷. Yn unol â hynny, cyhoeddodd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Chwefror 2021 y câi'r dewis gohiriedig ei fabwysiadu ar gyfer pob cynllun.
11. Mae'r Trysorlys wedi cyflwyno Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol⁸ (“y Bil”) gerbron Senedd San Steffan er mwyn gweithredu'r diwygiadau hyn, a'i gwneud yn ofynnol i “awdurdodau cyfrifol” (h.y. Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru) wneud y newidiadau angenrheidiol i reolau cynlluniau pensiwn, neu eu grymuso i wneud hynny. Mae'r Trysorlys yn gobeithio y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol ar ddechrau

⁶ Mae'r ymgynghoriad ar gael [yma](#).

⁷ Hynny yw, y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru; Undeb y Brigadau Tân; Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a Chymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub.

⁸ Mae rhagor o wybodaeth am y Bil, gan gynnwys y testun llawn, ar gael [yma](#).

2022, ac rydym wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn gan gymryd y bydd hynny'n digwydd.

12. Mater i'r Trysorlys a Llywodraeth a Senedd San Steffan yw ffurf gyffredinol y rhwymedi a'r diwygiadau eraill. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio a diwygio rheolau cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pensiynau galwedigaethol cyffredinol, gan gynnwys y rhai ar gyfer diffoddwyr tân, yn fater a gedwir yn ôl sydd y tu hwnt i gymhwysedd y Senedd (sy'n golygu na all basio deddfwriaeth yn y maes hwnnw). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru weithredu safbwynt y Trysorlys fel y'i hadlewyrchir mewn deddfwriaeth sylfaenol (h.y. y Bil). Ni chânt, er enghraifft, benderfynu na fydd cynlluniau etifeddol yn cau yn 2022, y dylai'r rhwymedi fod ar gael i'r rhai a ymunodd ar ôl 31 Mawrth 2012, neu y dylai dull dewis arall fod ar gael i'r aelodau yr effeithir arnynt. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y materion hynny, ac ni fyddai modd i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw farn o'r fath a ddaw i law.

13. Ar y cyfan, felly, mae tair prif elfen i becyn diwygiadau'r Trysorlys:

- a. Trosglwyddo'r holl aelodau sydd ar ôl yn y cynlluniau etifeddol i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022 (a gaiff ei gyflawni'n rhagolygol drwy'r rheoliadau drafft sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn).
- b. Dychwelyd yr aelodau yr effeithir arnynt i'w cynlluniau etifeddol am gyfnod y rhwymedi (i'w gyflawni'n ôl-weithredol drwy Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol).
- c. Sefydlu'r dull dewis gohiriedig y gall aelodau yr effeithir arnynt ei ddefnyddio, ar adeg ymddeol, i ddewis y cynllun sy'n gymwys i'w gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi, a darparu ar gyfer canlyniadau dewisiadau o'r fath (a gyflawnir yn ôl-weithredol drwy reoliadau y byddwn yn ymgynghori arnynt ac yn eu gwneud yn ystod 2022/23).

14. Mae'r ymgynghoriad hwn yn delio â'r cyntaf o'r elfennau hyn – trosglwyddo'r holl aelodau sydd ar ôl yn y cynlluniau etifeddol i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf.

Cwmpas y trosglwyddiad

15. Mae dyfarniad Sargeant yn golygu bod hawl gan ddiffoddwyr tân yr effeithir arnynt gael eu trin fel pe na baent wedi gadael eu cynlluniau etifeddol yn 2015 ac na ddylai'r trosglwyddiad i mewn i Gynllun 2015 fod wedi digwydd a bod yn rhaid ei wrthdroi. Mae'r Bil yn gweithredu hyn drwy ddarparu bod yn rhaid i wasanaeth aelodau yr effeithir arnynt yn ystod cyfnod y rhwymedi gael ei drin fel gwasanaeth yn eu cynlluniau etifeddol. Fodd bynnag, daw'r darpariaethau hynny i rym yn ôl-weithredol. Ni fyddai'n gwneud synnwyr trosglwyddo aelodau yr effeithir arnynt i mewn i'w cynlluniau etifeddol nawr ac yna eu trosglwyddo yn ôl i Gynllun 2015 bron yn syth y flwyddyn nesaf.

16. Felly, y sefyllfa ar hyn o bryd yw mai'r unig ddiffoddwyr tân a fydd yn trosglwyddo'r flwyddyn nesaf yw'r rhai a oedd wedi'u diogelu'n llawn ar 1 Ebrill 2015. Mae'r maen prawf oedran ar gyfer diogelwch yn golygu bod llawer o aelodau a ddiogelir wedi ymddeol ers 2015, ac ni fydd hyn yn effeithio arnynt.

Fodd bynnag, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol roedd dal i fod 200 o aelodau actif a ddiogelir yn llawn, gan gynnwys 123 o aelodau o Gynllun 1992, 29 o aelodau o Gynllun 2007 a 48 o aelodau o'r cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn. Mae rhai o'r aelodau hyn yn debygol o ymddeol cyn 1 Ebrill y flwyddyn nesaf a bydd rhai wedi ymddeol eisoes; dim ond y rheini a fydd mewn gwasanaeth o hyd fydd yn trosglwyddo ar y dyddiad hwnnw. Fel y nodwyd, bydd aelodau yr effeithir arnynt (h.y. y rhai a brofodd wahaniaethu) yn dychwelyd i fod yn aelodau o'u cynlluniau etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi yn ôl-weithredol. Ymunodd yr holl aelodau eraill â Chynllun 2015 pan gafodd ei gyflwyno (neu pan wnaethant ymuno â'r gwasanaeth, os oedd hynny ar ôl y dyddiad hwnnw) heb brofi unrhyw wahaniaethu, ac felly ni fydd y trosglwyddiad nac, yn wir, y pecyn diwygiadau ehangach yn effeithio arnynt.

17. Mae Deddf 2013, a Rheoliadau 2015, hefyd yn rhoi'r hyn a elwir yn “ddiogelwch taprog” i aelodau a oedd rhwng 41 a 44 oed ar 1 Ebrill 2012. O dan y diogelwch hwn, i bob pwrpas, cawsant eu symud yn raddol i fod yn aelodau o Gynllun 2015 rhwng 2015 a 2022, gyda'r union gyfnod yn dibynnu ar eu hoedran. Maent hefyd wedi profi gwahaniaethu ar sail oedran (yn yr ystyr nad oeddent wedi'u diogelu'n llawn yn eu cynlluniau etifeddol), a byddant hwy hefyd yn dychwelyd i fod yn aelodau o'r cynllun etifeddol am gyfnod llawn y rhwymedi, a bydd hawl ganddynt ddewis rhwng eu cynllun etifeddol a Chynllun 2015 pan fyddant yn ymddeol. Fodd bynnag, ymdrinnir â hyn yn ôl-weithredol. Bydd pob cyfnod o ddiogelwch taprog wedi dod i ben erbyn 1 Ebrill 2022, sy'n golygu y bydd pob aelod diogelwch taprog yn aelodau o Gynllun 2015 erbyn hynny'n barod ac na fydd angen iddynt gael eu cynnwys yn y trosglwyddiad.

18. Mae un eithriad bach i hyn. Mae'n bosibl i reolwr cynllun (sef yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n cyflogi aelod yng Nghymru) bennu dyddiad olaf ar gyfer y diogelwch taprog mewn achosion penodol sydd ar ôl 1 Ebrill 2022. Er nad ydym yn ymwybodol o achosion lle mae Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi gwneud hynny, mae'n rhaid darparu y bydd unrhyw gyfnodau o ddiogelwch taprog o'r fath yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 fan hwyraf.

19. I grynhoi, bydd y cynigion diwygio yn effeithio ar y grwpiau amrywiol o aelodau fel a ganlyn:

Dyddiad ymuno	Oedran ar 1/4/2012	Aelodaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi	Aelodaeth ar ôl cyfnod y rhwymedi	Dewis wrth ymddeol
Cyn 1/4/2012	45 neu'n hŷn (“aelodau a ddiogelir yn llawn”)	Cynllun etifeddol (heb newid)	Cynllun 2015 (drwy drosglwyddiad rhagolygol)	Opsiwn o fod yn aelod o Gynllun 2015 neu'r cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi
	44 neu'n iau (“aelodau yr	Cynllun etifeddol (drwy	Cynllun 2015 (heb newid)	Opsiwn o fod yn aelod o Gynllun 2015

Dyddiad ymuno	Oedran ar 1/4/2012	Aelodaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi	Aelodaeth ar ôl cyfnod y rhwymedi	Dewis wrth ymddeol
	effeithir arnynt")	ddydwelyd yn ôl-weithredol)		neu'r cynllun etifeddol yn ystod cyfnod y rhwymedi
Ar neu ar ôl 1/4/2012	Unrhyw oed ("aelodau nas effeithir arnynt")	Cynllun 2015 (heb newid)	Cynllun 2015 (heb newid)	Dim

20. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi sut rydym yn cynnig ymdrin â'r broses o drosglwyddo aelodau a ddiogelir yn llawn i mewn i Gynllun 2015, fel sydd wedi'i uwchleuo yn goch uchod. Nid yw'n effeithio ar grwpiau eraill o aelodau actif am y rhesymau a eglurwyd uchod.

21. Ni fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ychwaith ar:

- a. aelodau gohiriedig
- b. aelodau sydd wedi optio allan
- c. aelodau â chredyd pensiwn
- d. aelodau wedi ymddeol, nac
- e. aelod-oroeswyr

unrhyw gynllun diffoddwyr tân yng Nghymru.

Gweithredu'r trosglwyddiad

22. Mae'r rheoliadau drafft a fyddai'n trosglwyddo aelodau a ddiogelir yn llawn i mewn i Gynllun 2015 wedi'u hatodi i'r ddogfen hon. Byddem yn ddiolchgar am eich barn ar y graddau y byddai'r rhain yn gweithredu'r polisi o symud pob aelod actif i mewn i Gynllun 2015 o 1 Ebrill 2022 a'u heffeithiolrwydd yn hynny o beth.

23. Ar hyn o bryd, mae rheolau'r cynlluniau amrywiol yn darparu bod aelodau a ddiogelir yn llawn yn aelodau o'u cynlluniau etifeddol. Yn amlwg, mae angen i hynny newid fel eu bod yn dod yn aelodau o Gynllun 2015 yn lle hynny. Y ffordd symlaf o gyflawni hyn yw aildefnyddio'r darpariaethau trosiannol yng Nghynllun 2015 fel eu bod hefyd yn trosglwyddo aelodau a ddiogelir i mewn i'r Cynllun yn 2022.

24. Bydd hyn yn golygu cadw'r cysyniad a'r diffiniad o aelodau a ddiogelir, ond gan ddarparu y bydd eu haelodaeth o gynlluniau etifeddol (neu eu "cyfnod diogelwch", i ddefnyddio iaith Rheoliadau 2015) yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Bryd hynny, byddai'r darpariaethau trosiannol yn trosglwyddo'r aelodau hynny i mewn i Gynllun 2015, ac ni fyddai unrhyw ystyr i'r cysyniad o "aelod a ddiogelir" mwyach.

25. Dim ond rhai diwygiadau sydd angen eu gwneud i'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau 2015 er mwyn gweithredu yn y modd hwn. Nid oes angen diwygio

rheolau'r cynlluniau etifeddol (er enghraifft, newid eu dyddiadau cau), gan fod y Bil yn gwneud hyn yn uniongyrchol i bob pwrpas.

26. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y trosglwyddiad yn golygu y bydd aelodau a ddiogelir yn dod yn aelodau o Gynllun 2015, a byddant yn ddarostyngedig i holl reolau'r cynllun hwnnw a bydd ganddynt hawl i'r buddion a ddarperir ganddo. Caiff y pensiwn a gronnwyd ganddynt yn eu cynlluniau etifeddol ei gadw ar adeg y trosglwyddiad a'i dalu iddynt pan fyddant yn ymddeol. Fodd bynnag, mae sawl mater yn deillio o'r trosglwyddiad y mae angen rhoi sylw pellach iddynt. Mae'r materion hyn fel a ganlyn.

Tâl pensiynadwy a gwasanaeth pensiynadwy

27. Drwy weithredu'r trosglwyddiad yn y modd hwn, bydd y darpariaethau trosiannol a ddrafftwyd yn 2015 yn gymwys hefyd i'r trosglwyddiad y flwyddyn nesaf. Yn benodol, yn achos diffoddwyr tân sy'n aelodau o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu y caiff eu pensiynau eu cyfrifo gan ddefnyddio eu cyflog terfynol wrth iddynt ymddeol o'r Gwasanaeth, nid eu cyflog ar adeg y trosglwyddiad, o dan y "cyswllt cyflog terfynol" fel y'i gelwir. Er enghraifft, yn achos rhywun sydd ar radd Rheolwr Gwylfa ar 31 Mawrth y flwyddyn nesaf ac sydd yn cael dyrchafiad i fod yn Rheolwr Gorsaf cyn ymddeol yn 2025, byddai ei bensiwn yng Nghynllun 1992 neu Gynllun 2007 yn cael ei gyfrifo ar sail ei gyflog fel Rheolwr Gorsaf, er iddo ennill y cyflog hwnnw tra'i fod yn aelod o Gynllun 2015.
28. Mae Cynllun 1992 (yn unig) hefyd yn caniatáu cronriad dwbl o wasanaeth pensiynadwy ar ôl 20 mlynedd o wasanaeth, fel bod pob blwyddyn o wasanaeth gwirioneddol ar ôl y pwynt hwnnw yn cyfrif fel dwy flynedd o wasanaeth pensiynadwy – hyd at uchafswm o 30 mlynedd o wasanaeth o'r fath. I bob pwrpas, mae hyn yn creu cyfraddau cronni gwahanol yn dibynnu ar hyd gwasanaeth: y gyfradd gronni yw 1/60 o dâl pensiynadwy'r flwyddyn hyd at 20 mlynedd, ac 1/30 am bob blwyddyn wedi hynny, sy'n rhoi cyfradd gronni gyffredinol o 1/45 am 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy. Unwaith eto, bydd y trosglwyddiad yn cadw'r hawl honno fel y bydd y gyfradd gronni a gymhwysir i bensiwn o Gynllun 1992 yn seiliedig ar gyfanswm gwasanaeth pensiynadwy yng Nghynlluniau 1992 a 2015, nid Cynllun 1992 yn unig. Er enghraifft, yn achos rhywun fydd ag 20 mlynedd o wasanaeth yng Nghynllun 1992 ar 31 Mawrth y flwyddyn nesaf ac a fydd yn gweithio am bum mlynedd arall yng Nghynllun 2015, caiff ei bensiwn yng Nghynllun 1992 ei gyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd gronni ar gyfer 30 mlynedd o wasanaeth (gan fod y pum mlynedd ar ôl yr 20 mlynedd cyntaf, ac ar ôl trosglwyddo, yn cael eu dyblu). Fodd bynnag, ni fydd unrhyw bensiwn gwirioneddol yn cael ei gronni ganddynt yng Nghynllun 1992 o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf.
29. Mae'r cynllun wedi'i addasu ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn yn debyg i Gynllun 1992 ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'n defnyddio cyfradd gronni unffurf o 1/45 ni waeth beth fo hyd gwasanaeth yr aelod. Felly, nid oes angen cadw'r cronriad dwbl ar gyfer aelodau'r cynllun wedi'i addasu.

Blynyddoedd ychwanegol a phensiwn ychwanegol

30. Yn yr holl gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, mae'n bosibl i aelodau brynu naill ai blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiynadwy, neu bensiwn ychwanegol. Gwneir hyn drwy gytuno gyda rheolwr y cynllun, a thalu amdano mewn un cyfandaliad neu drwy ddiidyniadau o'u cyflog dros gyfnod o flynyddoedd, am weddill eu gyrfaedd yn rhai achosion.
31. I osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr holl gytundebau presennol yn parhau mewn grym ar ôl trosglwyddo i Gynllun 2015. Nid ydynt yn cynnwys parhau i Gronni pensiynau cynllun gwaddol; yn hytrach, bydd aelodau'r cynllun yn parhau i dalu mewn rhandaliadau i gael ychwanegiad a gytunwyd eisoes i'w gwasanaeth cyn trosglwyddo. Ni fydd y trefniadau hyn wedi'u heffeithio gan y Bil na'r rheoliadau drafft arfaethedig.

Ymddeol oherwydd afiechyd

32. Mae diffodd tân yn waith peryglus a chorfforol ac, yn anffodus, nid yw'n anghyffredin i ddiffoddwyr tân orfod ymddeol oherwydd afiechyd. Er enghraifft, os yw diffoddwr tân yn cael ei hanafu'n ddifrifol ar ddyletswydd neu am na allant weithio mwyach. Mae pob cynllun pensiwn yn gwneud darpariaeth i dalu pensiynau afiechyd yn syth mewn achosion o'r fath.
33. Mae'r telerau ar gyfer diffoddwyr tân sy'n ymddeol oherwydd afiechyd yn amrywio rhwng y tri chynllun, ond Cynllun 1992 (unwaith eto) yw'r un mwyaf manteisiol ar y cyfan – yn enwedig oherwydd ei oedran pensiwn arferol is. I fod yn gymwys i gael y pensiwn afiechyd mwyaf, rhaid i aelod o Gynllun 1992 fod yn debygol o fethu â gweithio hyd at oedran pensiwn arferol y Cynllun hwnnw, sef 55 oed, o leiaf; tra bod yn rhaid i aelod o Gynllun 2015 fethu â gwneud hynny hyd at yr oedran pensiwn arferol o 60 oed o leiaf. Er enghraifft, byddai diffoddwr tân 54 oed sy'n cael anaf difrifol ac sy'n gorfod cael blwyddyn o driniaeth a chymorth adsefydlu cyn gallu gweithio unwaith eto yn ymddeol am resymau meddygol ac yn cael pensiwn afiechyd llawn o dan Gynllun 1992, ond ni fyddai'n ymddeol o dan Gynllun 2015.
34. Fodd bynnag, mae'r broses, o reidrwydd, yn un faith ym mhob achos: ar ôl penderfynu i ddechrau bod achos posibl dros ymddeol oherwydd afiechyd, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub sy'n cyflogi gael barn ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol (YMCA) cyn penderfynu a ddylai diffoddwr tân ymddeol oherwydd afiechyd, ac mae'n bosibl y gallai apêl gael ei chyflwyno (gan yr Awdurdod Tân ac Achub neu'r diffoddwr tân) i Fwrdd Canolwyr Meddygol cyn i'r ymddeoliad ddigwydd.
35. O ystyried yr amserlen honno, mae perygl o annhegwch tuag at aelodau o gynlluniau etifeddol y cododd eu hangen i ymddeol (e.e. anaf neu afiechyd anablol) cyn y dyddiad trosglwyddo'r flwyddyn nesaf, ond na chafodd y penderfyniad terfynol ynghylch eu hymddeoliad ei wneud nes ar ôl y dyddiad hwnnw. Byddai aelod o'r fath yn aelod o Gynllun 2015 erbyn hynny ac, felly, efallai na chaiff unrhyw bensiwn afiechyd o gwbl, er i'r sail dros y pensiwn hwnnw

godi tra'i fod yn aelod o'r cynllun etifeddol.

36. Un ateb i hyn fyddai darparu, lle bo Awdurdod Tân ac Achub yn cyfeirio achos aelod at YMCA cyn y trosglwyddiad i mewn i Gynllun 2015, ond nad yw'n penderfynu y dylai'r aelod hwnnw ymddeol nes ar ôl y trosglwyddiad, yna caiff y pensiwn afiechyd ei dalu ar delerau'r cynllun etifeddol. Yn wir, dyma'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn 2015: mae Rheolau 37 a 38 o Ran 3C o Atodlen 2 i Reoliadau 2015 yn darparu ar gyfer yr union ddull gweithredu hwn.
37. Fodd bynnag, math o ddiogelwch trosiannol yw hwn yn yr ystyr ei fod yn caniatáu i aelodau cynlluniau sydd wedi cael eu hanafu neu sydd wedi mynd yn sâl barhau yn aelodau o'u cynllun etifeddol ar ôl y trosglwyddiad. Ar ei ffurf bresennol, mae'r Bil yn diddymu'r pŵer i ddarparu diogelwch trosiannol, ac eithrio mewn perthynas â chronni dwbl (gweler uchod) a rhai materion eraill sy'n annhebygol o fod yn berthnasol i bensiynau diffoddwyr tân. Mae hyn yn golygu y byddai'r darpariaethau yn Rheoliadau 2015 yn mynd yn ddi-rym, gan na fyddai'r pŵer a ddefnyddiwyd i wneud y darpariaethau hynny yn ddilys mwyach. O ganlyniad, byddai aelodau o'r fath yn trosglwyddo i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022, a byddai'n rhaid i unrhyw bensiwn afiechyd sy'n daladwy ar ôl y dyddiad hwnnw gael ei dalu ar delerau Cynllun 2015.
38. Ar adeg cwblhau ein rheoliadau drafft ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, nid oedd y sefyllfa bolisi a chyfreithiol yn y maes hwn yn eglur; ac o ganlyniad, nid yw'r rheoliadau drafft hynny'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth am ymddeoliadau oherwydd afiechyd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos ei bod yn bosibl defnyddio pwerau presennol i ddiwygio rheoliadau'r cynllun yn y maes hwn. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, byddwn yn defnyddio'r pwerau presennol i wneud rheoliadau terfynol sy'n diogelu sefyllfa'r rhai sy'n ymddeol oherwydd afiechyd ac y mae eu hachosion yn yr arfaeth ar 31 Mawrth y flwyddyn nesaf, ac yn benodol i sicrhau nad ydynt ar eu colled o ganlyniad i wneud penderfyniad i ymddeol ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys darparu "sylfaen" a fydd yn golygu y bydd aelodau o'r fath yn cael pensiwn oherwydd afiechyd Cynllun 2015 sydd wedi'i gyfrifo ar y dyddiad y maent yn ymddeol; ond os byddai pensiwn cynllun gwaddol a gyfrifwyd ar 31 Mawrth 2022 wedi bod yn fwy, rhaid cynyddu pensiwn Cynllun 2015 cymaint â'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

Y rheoliadau drafft

39. Mae cyfres ddrafft o reoliadau i drosglwyddo aelodau a ddiogelir yn llawn i mewn i Gynllun 2015 wedi'i hatodi i'r ymgynghoriad hwn. Mae prif ddarpariaethau'r rheoliadau hynny i gyd yn rheoliad 2 o'r drafft, ac maent i gyd yn diwygio Atodlen 2 (darpariaethau trosiannol) i Reoliadau 2015. Mae'r darpariaethau hyn fel a ganlyn:
- a. Mae Rheoliad 2(2)(a) yn darparu mai'r dyddiad cau (h.y. diwrnod olaf aelodaeth o gynllun etifeddol) yw 31 Mawrth 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.
 - b. Mae Rheoliad 2(2)(b) yn darparu mai'r dyddiad trosiant (h.y. diwrnod cyntaf aelodaeth o Gynllun 2015) yw 1 Ebrill 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.

- c. Mae Rheoliad 2(3) yn dileu'r pŵer i reolwyr cynlluniau bennu dyddiad gorffen ar gyfer diogelwch taprog ar ôl 31 Mawrth 2022, ac yn pennu y dylai pob cyfnod o ddiogelwch taprog ddod i ben ar y dyddiad hwnnw neu cyn y dyddiad hwnnw.
- d. Mae Rheoliad 2(4) yn ganlyniadol i reoliad 2(2)(a) ac yn darparu bod aelodau a ddiogelir yn llawn o gynlluniau etifeddol yn peidio â bod yn aelodau o'r cynlluniau hynny ar 31 Mawrth 2022.

40. Gyda'i gilydd, credwn fod y darpariaethau hyn yn cael yr effaith ddymunol o drosglwyddo'r holl aelodau a ddiogelir yn llawn i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf. Byddant hefyd yn golygu y bydd y darpariaethau trosiannol a oedd yn gymwys yn 2015 (er enghraifft, o ran y cyswllt cyflog terfynol a chronni dwbl) yn gymwys yn awtomatig i'r trosglwyddiad y tro hwn, heb orfod gwneud darpariaeth arbennig i'r perwyl hwnnw, am y bydd aelodau a ddiogelir yn llawn yn dod yn "aelodau trosiannol" at ddibenion y darpariaethau hyn.

41. Fel y nodwyd ym mharagraffau 32-38 uchod, nid ydym wedi gallu gwneud unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau drafft eto ynghylch ymddeol oherwydd afiechyd. Fodd bynnag, ac yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn diwygio'r rheoliadau drafft i fynd i'r afael â hyn fel y nodwyd; ni fyddwn yn ymgynghori eto arnynt gan fod y ddogfen ymgynghori hon eisoes yn disgrifio ein bwriadau yn y maes hwn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

42. Byddem yn ddiolchgar i gael eich ymatebion i'r cwestiynau canlynol.

- 1. I ba raddau y mae'r rheoliadau drafft yn adlewyrchu'r angen i drosglwyddo aelodau a ddiogelir i mewn i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, yn eich barn chi? A oes unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y drafft, yn eich barn chi?**
- 2. A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ynghylch cronni dwbl?**
- 3. A oes gennych unrhyw farn ar y cynigion ynghylch ymddeol oherwydd afiechyd? Yn benodol, a ydych yn cytuno y dylem ddrafftio'r rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer ymddeoliadau oherwydd afiechyd sy'n digwydd cyn ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo, sy'n sicrhau nad yw'r bobl yn yr amgylchiadau hynny ar eu colled o gymharu â phe byddent wedi ymddeol cyn y dyddiad hwnnw?**
- 4. A ydych yn rhagweld unrhyw anawsterau neu rwystrau wrth weithredu'r trosglwyddiad y mae'r rheoliadau yn darparu ar ei gyfer?**

5. ***Mae diddordeb gennym ddeall p'un a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?***

6. ***Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?***

7. ***Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg***

8. ***A oes gennych unrhyw farn arall ar y cynigion hyn (gan gydnabod nad yw'r polisi na'r gyfraith sylfaenol wedi'u datganoli, ac nad ydynt yn faterion i Lywodraeth Cymru)?***

Rhestr Termiau

Term	Esboniad
Aelod â chredyd pensiwn	Cyn-briod neu bartner sifil i aelod o gynllun sydd â hawl i gyfran o hawliadau pensiwn yr aelod hwnnw, o dan setliad ysgaru.
Aelod a ddiogelir yn llawn	Aelod o gynllun a gafodd <i>ddiogelwch trosiannol</i> llawn yn 2015, h.y. unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015 ac a oedd yn 45 oed neu'n hŷn ar y dyddiad cyntaf.
Aelod actif	Aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân a gaiff ei gyflogi'n weithredol yn ddiffoddwr tân (h.y. nid yw'r aelod wedi ymddeol, wedi ymddiswyddo nac wedi terfynu'r gyflogaeth honno mewn ffordd arall).
Aelod diogelwch taprog	Aelod o gynllun a gafodd gynnig diogelwch trosiannol taprog yn 2015, h.y. yr hawl i ymuno â Chynllun 2015 yn raddol. Mae hyn yn gymwys i unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015 ac a oedd rhwng 41 a 44 oed ar y dyddiad cyntaf. Mae aelodau diogelwch taprog hefyd yn <i>aelodau yr effeithir arnynt</i> .
Aelod gohiriedig	Aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân na chaiff ei gyflogi yn ddiffoddwr tân mwyach ond sydd heb gyrraedd yr oedran ar gyfer derbyn buddion pensiwn eto.
Aelod nas effeithir arno	Aelod o gynllun a ddechreuodd weithio fel diffoddwr tân ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, ac nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn effeithio arno.
Aelod sydd wedi optio allan	Diffoddwr tân sydd wedi dewis peidio â bod yn aelod o un o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân, er enghraifft, os yw'r unigolyn yn dymuno cael pensiwn personol gan ddarparwr yn y sector preifat yn lle hynny.
Aelod sydd wedi ymddeol	Aelod o gynllun sydd wedi ymddeol ac sy'n cael buddion pensiwn.
Aelod yr effeithir arno	Aelod o gynllun sydd wedi profi gwahaniaethu ar sail oedran, h.y. unrhyw un a gyflogwyd yn ddiffoddwr tân ar 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2015, ond a oedd yn iau na 45 oed ar y dyddiad cyntaf ac, felly, yn rhy ifanc i fod yn gymwys i gael <i>diogelwch trosiannol</i> llawn. Mae'n cynnwys <i>aelodau diogelwch taprog</i> .
Cronni dwbl	Nodwedd o <i>Gynllun 1992</i> (yn unig) sy'n golygu bod pob blwyddyn o wasanaeth gwirioneddol ar ôl yr 20 mlynedd cyntaf yn cyfrif fel dwy flynedd o <i>wasanaeth pensynadwy</i> . Mae hyn yn golygu bod gan aelod sydd â 21 o flynyddoedd o wasanaeth gwirioneddol 22 o flynyddoedd o wasanaeth pensynadwy, a bod gan aelod sydd â 22 o flynyddoedd o wasanaeth gwirioneddol 24 o flynyddoedd o wasanaeth pensynadwy, ac ati.
Cyflog terfynol	Ffordd o gyfrifo faint o bensiwn y mae hawl gan aelod ei gael ar sail <i>tâl pensynadwy</i> 'r aelod pan fydd yn ymddeol.

Term	Esboniad
Cyfnod y rhwymedi	Y cyfnod y bydd y rhwymedi ar gyfer <i>gwahaniaethu ar sail oedran</i> yn gymwys iddo: 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022, gan gynnwys y dyddiadau hynny.
Cyfradd gronni	Y gyfradd y mae <i>aelod actif</i> yn cronni pensiwn dros gyfnod penodol. Caiff ei mynegi fel arfer fel ffracsiwn neu ganran o <i>dâl pensiynadwy</i> blynyddol, ac mae'n amrywio o gynllun i gynllun. Fel egwyddor gyffredinol, caiff pensiwn blynyddol ei gyfrifo drwy luosi tâl pensiynadwy, <i>gwasanaeth pensiynadwy</i> a'r gyfradd gronni â'i gilydd.
Cynllun 1992	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992.
Cynllun 2007	Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.
Cynllun 2015	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 fel y'i sefydlwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015.
Cynllun etifeddol	Y cynllun yr oedd <i>aelod yr effeithir arno</i> neu <i>aelod a ddiogelir yn llawn</i> yn perthyn iddo yn union cyn 1 Ebrill 2015, h.y. <i>Cynllun 1992</i> neu <i>Gynllun 2007</i> .
Cynllun wedi'i addasu	Cynllun pensiwn yn benodol ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn (ar ddyletswydd yn ôl y galw). Mae wedi'i gynnwys yn rheolau <i>Cynllun 2007</i> ond mae'n debyg i <i>Gynllun 1992</i> yn gyffredinol.
Diffoddwr tân	Unrhyw un a gyflogir ym maes diffodd tân gan Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ac sydd, felly, yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn diffoddwyr tân. Mae hyn yn cynnwys diffoddwyr tân amser llawn, diffoddwyr tân wrth gefn a staff ystafelloedd rheoli, ond nid y rhai sy'n gwneud gwaith gweinyddol a gwaith arall nad yw'n ymwneud â diffodd tân sydd ar delerau ac amodau'r "Llyfr Gwyrdd" (sydd fel arfer yn aelodau o gynllun pensiwn llywodraeth leol). Mae hefyd yn eithrio pobl a gyflogir ym maes diffodd tân gan endid arall heblaw am Awdurdod Tân ac Achub, fel diffoddwyr tân mewn meysydd awyr neu ddiffoddwyr tân y fyddin.
Diogelwch trosiannol	Yr hawl i barhau i fod yn aelod o <i>gynllun etifeddol</i> yn 2015. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod rhoi'r hawl hon ar sail oedran yn anghyfreithlon.
Enillion ailbrisedig cyfartaledd gyrfa (CARE)	Ffordd o gyfrifo faint o bensiwn y mae hawl gan aelod ei gael yn seiliedig ar <i>dâl pensiynadwy</i> cyfartalog yr aelod dros gyfnod ei gyflogaeth, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant.
Goroeswr	Perthynas i aelod o gynllun – fel arfer, priod, partner neu blentyn – y mae hawl ganddo i gael buddion o'r cynllun ar ôl i'r aelod hwnnw farw.
Gostyngiad actiwaraid	Y gostyngiad yn y pensiwn a delir i rywun sy'n dewis ymddeol cyn cyrraedd <i>oedran pensiwn arferol</i> , er mwyn adlewyrchu'r ymddeoliad hwy y bydd yr unigolyn hwnnw yn ei fwynhau. Mae maint y gostyngiad yn dibynnu ar yr oedran ymddeol a ddewisir, ac mae'n amrywio o gynllun i gynllun.

Term	Esboniad
Gwahaniaethu ar sail oedran	Trin cyflogeion neu unrhyw grŵp arall o bobl yn llai ffafriol oherwydd eu hoedran. Mae gwahaniaethu ar sail oedran yn anghyfreithlon oni ellir dangos ei fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys.
Gwasanaeth pensiynadwy	Y cyfnod (a fynegir fel arfer mewn blynyddoedd) y mae aelod cynllun yn cronni pensiwn. Mae'n cyfateb i hyd cyflogaeth yr aelod fel arfer, gan gynnwys cyfnodau awdurdodedig i ffwrdd o'r gwaith megis cyfnodau mamolaeth (ond gweler <i>cronni dwbl</i> hefyd).
Oedran pensiwn arferol	Yr oedran y gall <i>aelod actif</i> ymddeol ar bensiwn llawn. Fe'i pennir yn rheolau'r cynllun a gall amrywio o gynllun i gynllun. Er enghraifft, oedran pensiwn arferol <i>Cynllun 1992</i> yw 55 oed ond 60 oed yw oedran pensiwn arferol <i>Cynllun 2007</i> a <i>Chynllun 2015</i> .
<u>Sargeant</u>	Achos llys <u>Sargeant ac eraill v Comisiynydd Tân Llundain ac eraill</u> , a sefydlodd fod <i>diogelwch trosiannol</i> ar sail oedran yn gyfystyr â <i>gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran</i> .
<u>Sylfaen</u>	Darpariaeth yn rheolau'r cynllun sy'n rhoi'r gorau o ddwy set bosibl o fuddion cynllun i aelod. Gweler hefyd sylfaen dewis gohiriedig (DCU).
Sylfaen dewis gohiriedig (DCU)	Y dull y bydd <i>aelodau yr effeithir arnynt ac aelodau a ddiogelir</i> yn ei ddefnyddio i benderfynu a ddylai eu gwasanaeth yn ystod <i>cyfnod y rhwymedi</i> gael ei drin fel gwasanaeth yn eu cynllun etifeddol neu Gynllun 2015. Caiff y dewis hwn ei wneud pan fydd yr aelod yn ymddeol neu pan fydd ei fuddion pensiwn yn cael eu talu gyntaf am reswm arall (e.e. os bydd yn marw cyn ymddeol). Byddwn yn cadarnhau hyn mewn rheoliadau pellach y byddwn yn ymgynghori arnynt ac yn eu gwneud y flwyddyn nesaf. Ni chaiff ei gwmpasu gan y rheoliadau drafft hyn.
Tâl pensiynadwy	Swm y tâl a ddefnyddir i gyfrifo hawliadau pensiwn. Yn gyffredinol, mae'n cynnwys cyflog rheolaidd unigolyn ac unrhyw lwfansau a gaiff ar sail barhaol neu amhenodol, ond nid taliadau byrdymor fel goramser neu lwfansau dros dro.